

Cyflwyniad Home-Start Cymru i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Costau Byw

Mai 2022



Yng ngoleuni natur a chylch gwaith gwasanaethau Home-Start Cymru ac ehangder arbenigedd ein staff a'n gwirfoddolwyr, bydd yr ymateb hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cwestiynau ymgynghori canlynol:

- *Sut mae pwysau costau byw yn effeithio ar y gweithlu, a sut mae gwahanol grwpiau o fewn y gweithlu yn cael eu heffeithio?*
- *Sut mae'r wasgfa costau byw yn effeithio ar gymunedau gwledig, ac i ba raddau y mae'r pwysau a wynebant yn wahanol i ardaloedd trefol?*

Cyflwyniad

Gweledigaeth Home-Start Cymru yw "I bob rhiant yng Nghymru gael y cymorth sydd ei angen arnynt i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'w plant". Mae mwyafrif y teuluoedd rydym yn eu cefnogi yn byw mewn tlodi, mae dros hanner yn dioddef o bryderon iechyd meddwl, mae llawer yn ynysig yn gymdeithasol, ac mae'r rhan fwyaf yn wynebu heriau ariannol sylweddol.

Gyda chostau byw ar eu huchaf ers degawdau a chostau cynyddol nwyddau hanfodol, petrol ac ynni, ochr yn ochr ag effeithiau economaidd y pandemig, mae teuluoedd ledled Cymru yn wynebu ergyd ddwbl, gydag effeithiau yn gwaethygu ymhellach ar deuluoedd sy'n byw mewn cymunedau gwledig lle gall arwahanrwydd daearyddol gyfyngu ar fynediad at systemau a gwasanaethau cymorth hanfodol sydd i'w cael yn fwy cyffredin mewn ardaloedd trefol. Mae rhieni mewn cyflogaeth yn cael eu hunain yn gaeth yn ariannol ymhlith systemau budd-daliadau cymhleth a all eu cosbi am weithio.

Mae effeithiau andwyol yr argyfwng costau byw hefyd yn cael eu teimlo gan y gweithlu, gyda'r trydydd sector yn cael ei effeithio'n arbennig. Mae gweithwyr dan straen yn dilyn pwysau dwys y 2 flynedd ddiwethaf ac mae sefydliadau wedi'u cyfyngu o ran sut y gallant leddfu'r pwysau yn y tymor byr a diffyg cyllid craidd.

Negeseuon allweddol

- Mae sefydliadau trydydd sector tymor byr/dibynnol ar arian grant yn gweithredu fel achubiaeth i lawer o deuluoedd ar hyn o bryd, ond yn cynnal gweithlu o weithwyr rheng flaen blinedig sydd ar dan straen ofnadwy. Gyda lles yn bryder, mae angen dulliau atal i gadw gweithlu hanfodol sy'n gwasanaethu teuluoedd mewn argyfwng.
- Mae rhieni mewn cyflogaeth yn wynebu cyfyng-gyngor ariannol cymhleth a sylweddol, gyda safonau economaidd cyfredol a chyfraddau budd-daliadau sefydlog yn cyflwyno heriau ariannol cymhleth.

- Mae profiadau cymunedau gwledig yn ystod yr argyfwng costau byw yn cyflwyno heriau unigryw sy'n wahanol i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol, gyda rhwystrau penodol yn deillio o drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a chostus a bwlich digidol cynyddol.

Ymateb manwl

1. Sefydliadau trydydd sector sy'n dibynnu ar grantiau sy'n gweithredu fel achubiaeth ar gyfer niferoedd cynyddol o deuluoedd ar yr adeg hon, tra'n cynnal gweithlu blinedig sydd dan straen

- 1.1. Llwyth gwaith cynyddol: wrth i'r argyfwng costau byw barhau i gael gwared ar incwm gwario teuluoedd ledled Cymru, mae mwy yn canfod eu hunain yn nesáu at argyfwng ac mae'r galw am gymorth gan sefydliadau fel Home-Start Cymru ar gynydd sydyn a chyson. Mae ein staff wedi gweld cynnydd aruthrol yn y galw am gymorth, ochr yn ochr â'r angen cynyddol am gymorth gan fanciau dillad a bwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- 1.2. Effeithiau costau byw: tra bod gweithwyr y trydydd sector, gan gynnwys staff rheng flaen HSC a gwirfoddolwyr, wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth i'r rhai sydd ei angen, yn aml â llwythi achosion mawr, maent yn wynebu eu realiti personol eu hunain o brisiau cynyddol a chyfraddau YG uwch, gan eu gosod dan fwy o bwysau ariannol nag erioed.
- 1.3. Ariannu'r trydydd sector: mae llwythi gwaith cynyddol ac effeithiau'r pandemig wedi cael effaith ar y gweithlu, wedi'u gwaethygu ymhellach gan eu heriau ariannol eu hunain o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. I sefydliadau trydydd sector, yn dibynnu ar gyllid grant tymor byr yn aml heb gyllid craidd digonol, mae cynyddu cyflogau yn unol â phwysau costau byw i leddfu'r baich hwnnw ar staff yn fwy heriol nag i sectorau eraill. Yn yr un modd, mae sicrhau cyllid digonol i ateb y galw cynyddol ar wasanaethau yn heriol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.
- 1.4. Iechyd meddwl a llesiant: o ganlyniad i bwysau llwyth gwaith parhaus dros y 2 flynedd ddiwethaf, wedi'u dwysáu gan effeithiau personol yr argyfwng costau byw, mae iechyd meddwl a lles y gweithlu yn dioddef. Mae gweithwyr wedi blino'n lân ond mae'r galw yn parhau i'w gwneud hi'n anodd blaenoriaethu hunanofal, tra bod y pandemig wedi'i gwneud hi'n anoddach cysylltu ag eraill y tu allan i'r gwaith, a gall diffyg sicrwydd mewn perthynas ag incwm/codiadau cyflog hirdymor gynyddu pryder.
- 1.5. O ystyried y pwysau aruthrol ar y trydydd sector o ganlyniad i'r argyfwng costau byw; gyda llawer o sefydliadau hefyd yn ceisio ymestyn ymateb i anghenion penodol y niferoedd cynyddol o ffoaduriaid sy'n dod i mewn i Gymru, rhaid cefnogi sefydliadau i leihau'r pwysau ar weithwyr rheng flaen blinedig fel nad ydynt yn gorlethu o dan amodau heriol y presennol. Byddai codiadau mewn cyllid prosiect, y mae llawer ohono wedi aros yn llonydd ers peth amser, yn helpu sefydliadau i gynyddu cyflogau i gefnogi'r gweithlu gydag effeithiau chwyddiant.

2. Mae rhieni mewn cyflogaeth yn wynebu cyfyng-gyngor ariannol cymhleth a sylweddol, gyda safonau economaidd cyfredol a chyfraddau budd-daliadau sefydlog yn cyflwyno amgylchiadau cymhleth ar gyfer cyflogaeth.

- 1.1. Gall meini prawf cymhwyster cymhleth ar gyfer budd-daliadau/cymorth ariannol ei gwneud hi'n anodd mynd i mewn i gyflogaeth amser llawn, gan orfodi rhieni i werthuso'r manteision o wneud hynny pan all gwaith incwm isel heb gymorth ariannol ychwanegol fod yn anfanteisiol i deuluoedd, sydd bellach yn fwy nag erioed yng nghanol cost o argyfwng byw.
- 1.2. Mae llawer o deuluoedd a gefnogir gan Home-Start Cymru yn cael rhyw fath o fudd-dal. Wrth i'r gyfradd budd-daliadau genedlaethol aros yn sefydlog, tra bod chwyddiant yn paratoi i gyrraedd ei uchafbwynt, mae cost gwasanaethau hanfodol, megis gofal plant, yn parhau i godi.

"Ni allaf fforddio mynd yn ôl i'r gwaith gan fod gofal plant mor anodd i'w dalu. Rwy'n gwybod y bydd UC yn rhoi canran i mi tuag ato, ond mae mor ddrud erbyn i mi dalu am ofal plant, go brin ei fod yn werth chweil mynd yn ôl i'r gwaith" – Rhiant a gefnogir gan Home-Start Cymru

- 1.3. O ganlyniad i'r argyfwng costau byw, mae'n ymddangos bod y dewis i weithio at ddibenion dilyniant gyrfa neu hunan-rymuso, yn ogystal ag ennill bywoliaeth, wedi'i ddileu, gan wneud ennill incwm yn achos syml o oroesi. Er yr amcangyfrifir bod cyfraddau diweithdra wedi gwella tua 1.6% o gymharu â dechrau 2021, mae opsiynau cyfyngedig i rieni i wneud y mwyaf o incwm, tra'n jyglo bod yn rhiant, yn peryglu cynnydd canlyniadol yng nghyfraddau aelwydydd sydd allan o gyflogaeth amser llawn.¹
- 1.4. Un o brif effeithiau'r argyfwng costau byw yw nifer y teuluoedd sy'n cael eu gwthio i ddyled eithafol, a bydd effeithiau hynny i'w teimlo am oes. Er enghraifft, bu effaith uniongyrchol y cynnydd mewn costau ynni ar ddyledion cynyddol. Pedair wythnos yn unig ar ôl i brisiau ynni godi, ni all rhai o'n teuluoedd dalu'r costau uwch, ac maent yn cadw eu hen drefniadau debyd uniongyrchol mewn lle, gan gronni dyled tanwydd yn gyflym yn lle hynny.

"Ni allaf fforddio mwy y mis, felly rwy'n cadw'r debyd uniongyrchol yr un peth, ond rwy'n gwybod nad yw hyn yn cwmpasu hanner fy mil misol. Ond beth ydw i i fod i'w wneud? O leiaf mae gen i ryw faint o arian at fwyd drwy wneud hyn".
– Rhiant a gefnogir gan Home-Start Cymru

- 1.5. Yn ystod y cyfnod hwn mae teuluoedd yn chwilio'n daer am ffyrdd o wneud y mwyaf o'u hincwm, fodd bynnag, mae trothwyon cymhleth ar gyfer cymorth ariannol wedi'i gynnal i rieni sy'n gweithio yn aml yn rhwystr i rieni rhag cael gwaith llawn amser gan y byddant ar eu colled ar gynigion cymorth hanfodol.
- 1.6. I rieni a all fod yn aml yn cael mynediad at nifer o fudd-daliadau, mae'n

¹ Clark, D. 2022. *Unemployment rate in Wales 1992-2022*. Ar gael yn: [• Unemployment rate Wales 2022 | Statista](#) [Cyrchwyd: 10 Mai 2022]

hanfodol bod y systemau hyn yn gweithio ochr yn ochr yn well i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd i gynnal gweithgaredd economaidd a dyheadau gyrfa tymor hwy. Rhaid i systemau cymorth ystyried y darlun ehangach ar gyfer rhieni y gallai fod angen cymorth arnynt ar draws sawl maes allweddol.

3. Mae profiadau cymunedau gwledig yn ystod argyfwng costau byw yn cyflwyno heriau unigryw sy'n wahanol i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

- 1.1. Mae cost ac effeithlonrwydd trafndiaeth gyhoeddus mewn llawer o gymunedau gwledig ledled Cymru yn rhwystr i fynediad mewn llawer o ardaloedd hanfodol.
 - a. Mae cysylltiadau trafndiaeth mewn cymunedau gwledig yn gyfyngedig iawn; yn aml mae llwybrau bws anaml a chyfyngedig ar gael, tra bod prisiau tocynnau yn hynod o uchel o gymharu â chyfraddau canol dinasoedd.
 - b. Mae rhwystrau amllder a chost sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus yn atal rhieni a theuluoedd rhag cyrchu nifer o wasanaethau, gan gynnwys y rhai sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pwysau costau byw, gwella cysylltedd cymdeithasol a gwella bondiau rhiant-plentyn; mae'r rhain yn cynnwys:
 - Cyrchu banciau bwyd: i'r rhai sy'n byw yng nghanol Cymru, mae mwyafrif y banciau bwyd wedi'u lleoli ar draws ffiniau Cymru, tra bod llawer wedi'u lleoli yn ne Cymru sy'n gwasanaethu poblogaeth fwy trefol.²
 - Mae llai o grwpiau rhieni plant bach ar gael mewn ardaloedd gwledig gyda mwy wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol. Rhaid i rieni wynebu costau cludiant uchel i deithio i grwpiau i dderbyn cymorth wedi'i dargedu at ddatblygu bondiau rhiant-rhiant-plentyn o ansawdd.
 - c. Mae cyfyngiadau trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig yn rhoi straen sylweddol ar deuluoedd, a all fod yn ddibynol ar systemau cymorth anffurfiol, megis perthnasau, ar gyfer trafndiaeth, siopa a gweithgareddau.
 - ch. Mae rhieni mewn ardaloedd gwledig sy'n dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig i gael mynediad i anghenion sylfaenol, fel siopa bwyd, hefyd yn wynebu jyglo plant ifanc a chario hanfodion cartref a gallant wynebu beirniadaeth gan gyd-deithwyr a gweithwyr trafndiaeth. Gwelir enghraifft allweddol o hyn drwy gydol profiad Sian Whelptom. Dywedwyd wrth Whelptom am adael y bws gan fod ei mab ifanc yn crio, gan adael y fam i dri o blant 'dim dewis ond gadael y bws gyda'i thri o blant a chwe bag o siopa pan stopiodd y gyrrwr.'³
 - d. Mae sawl ffordd y gellir datrys y rhwystrau hyn a wynebir gan deuluoedd. Mae angen archwilio'r rhain er mwyn lleddfu pwysau costau byw beunyddiol i deuluoedd a hwyluso mynediad at wasanaethau sydd eu hangen, megis apwyntiadau meddygol, a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol. Gallai'r rhain gynnwys:

² Independent Food Aid Network. 2022. *IFAN Member Organisations*. Ar gael yn: [Our members - Independent Food Aid Network UK](#) [Cyrchwyd: 10 Mai 2022]

³ BBC News. 2004. *Crying son 'ordered' off bus*. Ar gael yn: [BBC NEWS | Wales | Crying son 'ordered' off bus](#) [Cyrchwyd: 10 Mai 2022]

- Taccis cymunedol; creu gwasanaeth sy'n ystyriol o deuluoedd gyda gyrwyr anfeirniadol y gellir eu cyrchu am gost isel gan rieni sydd angen cyrchu ardaloedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Mae'n bosibl y bydd gan ysgolion fewnwelediad da i'r teuluoedd a allai fod yn ei chael hi'n anodd cael plant i'r ysgol neu gael mynediad at wasanaethau, gan greu llwybr atgyfeirio dibynadwy.
 - Ymgyrchoedd cyflymach i fanteisio arnynt; annog y defnydd o wasanaethau trafndiaeth ochr yn ochr â mentrau lleihau costau ar gyfer y rheini mewn ardaloedd gwledig sydd fel arall wedi'u hynysu os nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth.
- 1.2. Mae'r argyfwng costau byw, ochr yn ochr â chymdeithas wedi'i haddasu o weithwyr ar-lein a chyfunol, wedi ehangu'r gagendor digidol. Mae effeithiau tlodi digidol i bob golwg yn cael eu gwaethygu gan fyw mewn ardal wledig.
- a. Mae rhwydwaith gwirfoddolwyr Home-Start Cymru yn aml yn cysylltu â'u teuluoedd dros y ffôn er mwyn cydlynu ymweliadau a chynnal cyswllt rheolaidd. Mae teuluoedd sy'n byw mewn argyfwng ariannol yn ystod y cyfnod hwn yn cael trafferth yn fwy cyffredin i gadw credyd ar eu dyfeisiau wrth i gyllid fynd tuag at hanfodion uniongyrchol, fel gwres a bwyd. Gall byw mewn ardaloedd gwledig, anodd eu cyrraedd ei gwneud yn anoddach darparu'r cymorth sydd ei angen, gyda chyfathrebu rhwng gwirfoddolwyr a theulu yn fwy heriol; sefyllfa a allai fel arall gael ei datrys yn symlach mewn ardal drefol. Gall rhwystrau i gymunedau gwledig amharu'n sylweddol ar y ddarpariaeth o gymorth hanfodol i deuluoedd, gan gynyddu unigedd.
- Nid yw 7% o boblogaeth Cymru (neu tua 180,000 o bobl) ar-lein.⁴ Mae ffactorau lluosog yn cyfrannu at ddiffyg mynediad at dechnoleg ar-lein, gyda ffactorau dylanwadol allweddol yn cynnwys incwm isel a chysylltedd gwael mewn ardaloedd gwledig. O'r herwydd, mae unigolion dan anfantais gan eu bod wedi'u torri i ffwrdd rhag cyrchu ystod o wasanaethau, yn fwy felly ers y pandemig gan fod llawer wedi symud ar-lein neu i ddull cyfunol. Gall hyn effeithio ar eu gallu i gael mynediad at ofal iechyd, cymorth cymdeithasol, cyfleoedd cyflogaeth ac i gynnal cysylltedd cymdeithasol yn unig.
- b. Byddai lliniaru tlodi digidol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffyrdd y gall ein teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael mynediad at ein gwasanaethau a chymorth hanfodol arall, yn ogystal â gwasanaethau iechyd, cyfleoedd cyflogaeth, a llawer o wasanaethau eraill. Gallai pethau a fyddai'n helpu gynnwys:
- Cyflwyno tariffau cymdeithasol ar gyfer ardaloedd gwledig
 - Cynlluniau ffonau symudol; cynlluniau sim am ddim i deuluoedd ymhell o hybiau cymorth
 - Darparu offer technegol

⁴ Cymunedau Digidol Cymru. *Digital Inclusion in Wales*. Ar gael yn: [Digital inclusion in Wales \(gov.wales\)](https://gov.wales) [Cyrchwyd: 10 Mai 2022]

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

